# Compact ar gyfer Newid rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yng Nghymru

## Cyflwyniad

Mae'r Compact hwn yn nodi'r telerau ar gyfer perthynas newydd rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, yn seiliedig ar weithio mewn partneriaeth a pharch y naill at y llall. Mae'r darpariaethau sydd ynddo a'r dull o'u cyflenwi yn ategu'r cyllid sydd i'w ddarparu i lywodraeth leol yn ystod 2012 - 2014 ac yn gosod fframwaith a cherrig milltir realistig ar gyfer newid. Yn y pen draw, bwriad y newidiadau hyn yw gwella perfformiad, effeithlonrwydd a chanlyniadau i bobl Cymru.

## Y Cyd-destun

Mae cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus wrth wraidd Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Mae llywodraeth leol yn ddarparwr gwasanaethau pwysig yng Nghymru, ac mae'n derbyn £5 biliwn o gyllideb Llywodraeth Cymru. Mae Gweinidogion Cymru a chynghorwyr a etholwyd yn lleol wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth i wella gwasanaethau'n sylweddol a sicrhau effeithlonrwydd gwell trwy gyflymu'r broses o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus. Mae arweiniad cydweithredol cryf yn hanfodol i gyflawni'r newidiadau hynny.

Mae'r Compact hwn yn ddatganiad clir o ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol i flaenoriaethu'r camau sy'n sylfaen i newidiadau sylweddol i wasanaethau a llywodraeth leol. Bydd yn tynnu ynghyd ffrwyth dau adolygiad pwysig a datganiad polisi gan y Llywodraeth a gyhoeddwyd yn ystod gwanwyn 2011[1].

Er mai cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yw hwn, ar raddfa ehangach mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau gwasanaethau effeithiol, sy'n ymatebol yn lleol, trwy gydweithredu ar draws sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus, fel rhan o'r agenda gyffredinol i ddiwygio'r gwasanaethau hynny.

Mae'r Compact yn darparu eglurder mewn perthynas ag amserlenni ac atebolrwydd ar gyfer cyflawni'r newidiadau angenrheidiol. Caiff fframwaith monitro ac adrodd cadarn ei sefydlu i gefnogi'r broses hon. Bydd Cyngor Partneriaeth diwygiedig yn gyfrifol am fonitro'r cynnydd yn hyn o beth.

[1] Adolygiad Simpson *'Lleol, Rhanbarthol, Cenedlaethol: Pa wasanaethau yw'r rhai gorau i'w darparu ble?'* ; Adolygiad Vivian Thomas: 'Strwythur Gwasanaethau Addysg yng Nghymru'; a 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu'

**Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus**

Mae cryfhau atebolrwydd democrataidd yn un o ymrwymiadau allweddol Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Mae angen i benderfyniadau am sut y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu cynllunio a'u rheoli ddilyn fframweithiau democrataidd lleol. Mae Llywodraeth Cymru a'r 22 cyngor yng Nghymru wedi ymrwymo i'r model llywodraeth leol o gael awdurdodau unedol sy'n atebol yn ddemocrataidd ac sy'n agos at eu cymunedau. Fodd bynnag, ar lefel ymarferol mae'n amlwg bod yr hinsawdd economaidd anodd a'r galw cynyddol ar wasanaethau wedi arwain at heriau sylweddol mewn perthynas â pherfformiad. Cydweithredu yw un o'r ffyrdd allweddol o ymdrin â'r heriau a ddaw yn sgil ansawdd amrywiol gwasanaethau, dull gweithredu tameidiog, dyblygu ymdrechion, a diffyg effeithlonrwydd.

Mae'r Compact yn seiliedig ar ddatblygu cydweithredu gwirfoddol rhwng cynghorau. Mae Mesur Llywodraeth Leol 2009 yn darparu pŵer galluogi hanfodol er mwyn cael gwared ar unrhyw rwystrau statudol neu rwystrau eraill sy'n atal cynghorau rhag cydweithredu. Bydd hyn yn helpu i sicrhau eu dyletswydd i wella'n barhaus a bodloni eu hamcanion o ran gwella. Ni ddylai fod ond ychydig o rwystrau cyfreithiol, os o gwbl, ar ôl i gydweithredu. Mae Mesur 2009 yn rhoi pwerau wrth gefn i Weinidogion Cymru gyfarwyddo cydweithredu, a byddai'n ofynnol iddynt ystyried defnyddio'r pwerau hyn petai tystiolaeth yn dod i'r amlwg na fanteisiwyd ar gyfle i gydweithredu lle'r oedd achos busnes clir dros wneud hynny.

Diben y Compact hwn yw arbed adnoddau a chyflawni gwelliannau amlwg wrth ddarparu gwasanaethau i bobl Cymru. Rhaid cyflwyno tystiolaeth o'r achos dros newid yn erbyn y meini prawf hyn. Os oes achos amlwg dros newid, a bod modd dangos manteision o safbwynt gwasanaethau neu adnoddau, disgwylir i gydweithredu fynd rhagddo. Ar brydiau, mae'n bosibl y bydd yr achos dros newid yn wannach neu'n fwy niwtral ar gyfer un partner nag ar gyfer y llall. Ni ddylai graddfa gymharol y manteision fod yn rheswm dros osgoi cydweithio os bydd y canlyniad ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn bodloni'r meini prawf a nodir uchod.

Mae Patrwm Cydweithredu sefydledig Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus[2] yn rhoi eglurder mewn perthynas ag ardaloedd lleol, yn seiliedig ar ffiniau Byrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau'r heddlu. Diben hyn yw sicrhau fframwaith sefydlog a chydlynol i gefnogi cysylltiadau cydweithredol. Rydym yn rhannu'r disgwyliad y dylai unrhyw gydweithredu yn y dyfodol fod yn gyson â'r patrwm hwn, gan gynnwys crynhoi'r ardaloedd hyn lle mae'n ofynnol neu'n briodol darparu gwasanaethau rhanbarthol ar raddfa fwy.

---

2 http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/partnership/council/agendas/37thmeeting/?skip=1&lang=cy

## Rôl Llywodraeth Cymru

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i sicrhau bod llywodraeth leol yng Nghymru yn cael setliad priodol i'w helpu i ddiogelu gwasanaethau hanfodol, a hynny mewn cyfnod o bwysau difrifol ar gyllid, gan gynllunio newidiadau i wasanaethau a'u rhoi ar waith mewn ffordd gydlynus a strategol.

Yn sgil trafodaethau â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, bydd Llywodraeth Cymru yn helpu awdurdodau lleol i ymdopi â'r pwysau cynyddol ar refeniw. Bydd hefyd yn manteisio'n llawn ar lefelau benthyciadau heb eu cynnal i gefnogi blaenoriaethau seilwaith a rennir. Yn benodol, byddai'r cymorth hwn yn cael ei ddarparu ar ffurf cyllid parhaus i ymdrin â phwysau refeniw, gan ganiatáu i awdurdodau lleol symud adnoddau i raglenni buddsoddi cyfalaf. Byddai'r cyllid ar gael dros gyfnod y cytunir arno. Yn gyfnewid am hynny bydd llywodraeth leol yn sicrhau bod rhaglenni buddsoddi cyfalaf, a ariennir gyda chyllid sydd newydd ei ryddhau, yn fuddsoddiad ychwanegol at yr hyn a gynlluniwyd eisoes, ac y caiff ei ddefnyddio i ariannu blaenoriaethau buddsoddi cyfalaf a gytunwyd ar y cyd.

Er mwyn helpu i roi'r Compact ar waith, bydd Llywodraeth Cymru yn:

- cefnogi egwyddorion y Compact am gyfnod y Llywodraeth hon, gan adolygu'r hyn a gyflawnwyd a'r dyheadau ar gyfer y dyfodol drwy'r Cyngor Partneriaeth;
- meithrin amgylchedd sy'n hyrwyddo amcanion y Compact ac yn ymdrin â'r rhwystrau a'r materion sydd y tu allan i reolaeth llywodraeth leol;
- symleiddio'r cyfyngiadau a'r gofynion y mae'n rhaid i lywodraeth leol gadw atynt wrth gynllunio;
- cefnogi'r broses o ddatblygu cynlluniau integredig sengl mewn ardal benodol i helpu i sicrhau bod llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cynllunio a'u darparu ar y cyd, yn unol ag anghenion y gymuned;
- parhau i weithio'n agos â llywodraeth leol i fanteisio i'r eithaf ar fuddsoddiad o dan y Cynllun Seilwaith Cenedlaethol;
- archwilio'r cyfleoedd i gryfhau'r cysylltiad rhwng darparu cyllid a chyflawni canlyniadau;
- ceisio lleihau nifer y grantiau penodol a'r arian sydd wedi'i neilltuo.

## Rôl Llywodraeth Leol

Bydd llywodraeth leol yn mynd ati i gyflawni'r ymrwymiadau a nodir yn y Compact hwn mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Ochr yn ochr â'u cyfrifoldeb i gynrychioli anghenion a dyheadau eu cymunedau, mae gan gynghorwyr lleol ran gynyddol i'w chwarae i gefnogi cydweithredu, a hynny er mwyn gwella gwasanaethau neu effeithlonrwydd. Am eu bod yn gyfarwydd â materion lleol, mae cynghorwyr mewn sefyllfa dda i nodi'r angen am wasanaethau mewn ardaloedd penodol ac i herio a chraffu'n fanwl ar y ffordd o'u cynllunio a'u darparu. Mae'r Compact yn cydnabod yn llawn y rôl hollbwysig y mae cynghorwyr lleol yn ei chwarae. Er mwyn cynnal

gwasanaethau, bydd angen i gynghorwyr annog a chefnogi trefniadau cydweithredol pan fyddant yn lleihau costau a / neu wella gwasanaethau.

Mae trefniadau rheoli perfformiad a llywodraethu tryloyw, sy'n caniatáu i gynghorwyr graffu'n barhaus ar wasanaethau, yn rhagofynion ar gyfer cydweithredu effeithiol. I raddau cynyddol, bydd yn rhaid i gynghorwyr roi ystyriaeth briodol hefyd i'w rôl fel arweinwyr cymunedol a chymryd rhan gadarnhaol yn y broses ddiwygio, gan gydnabod bod eu rôl yn ymestyn y tu hwnt i'w ffiniau eu hunain.

## Llywodraethu

Caiff fframwaith monitro ac adrodd cadarn ei sefydlu i gefnogi'r broses o roi'r Compact ar waith. Cyfrifoldeb Cyngor Partneriaeth Cymru diwygiedig fydd hyn.

Bydd Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus yn cefnogi'r Cyngor Partneriaeth i fonitro gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus. Rhaglen waith genedlaethol Datblygu Sefydliadol a Gweithredu Argymhellion Simpson, o dan arweiniad Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus, fydd y Bwrdd Rhaglen ar gyfer rhoi Adolygiad Simpson ar waith. Mae'r Contractau Gweithredu yn cynnwys ymrwymiadau penodol ym meysydd addysg a gwasanaethau cymdeithasol, a gaiff eu monitro drwy'r trefniadau llywodraethu Gweinidogol presennol. Lle bo'n briodol gofynnir i fforymau eraill, fel Cyngor Partneriaeth y Gweithlu a Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, ystyried neu gytuno ar faterion penodol.

## Helpu i Roi'r Compact ar Waith

Mewn rhai achosion bydd mwy o gydweithredu'n dod â manteision ariannol i grŵp penodol o sefydliadau, ond bydd amrywiaeth o fanteision yn cronni i'r cyfranogwyr. I rai ohonynt mae'n bosibl y bydd y costau buddsoddi cychwynnol yn golygu bod y cynnig yn llai atyniadol iddynt. Gall cynlluniau fel Buddsoddi i Arbed a Chronfa Gymdeithasol Ewrop, yn ogystal ag arian pontio neu drawsnewid arall, chwarae rhan bwysig i gefnogi prosiectau lle mae'r costau buddsoddi cychwynnol yn ffactor arwyddocaol sy'n atal newid.

Mae cyflawni newid hefyd yn galw am fuddsoddi'n sylweddol mewn rheoli newid a datblygu sefydliadol, a hynny er mwyn ymdrin â'r amrywiol faterion staffio pwysig a fydd yn codi. Cyngor Partneriaeth y Gweithlu fydd yn gyfrifol am arwain y gweithlu drwy'r newidiadau angenrheidiol i wasanaethau. Bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn parhau i hwyluso ymgynghoriadau â'r undebau llafur perthnasol yn rhanbarthol, yn unol â Datganiad Sefyllfa diwygiedig "Rheoli Newid mewn Partneriaeth" Cyd-gyngor Cymru. Ein pwyslais ar gefnogi a datblygu'r gweithlu gwasanaethau cyhoeddus, a'n gwerthfawrogiad ohonynt, sydd wrth wraidd yr ymrwymiad hwn.

## Canlyniadau

Mae'r tri Contract Gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y Compact hwn yn nodi camau ac amserlenni y cytunwyd arnynt ar gyfer newid y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu gan lywodraeth leol.  Cerrig milltir a therfynau amser realistig ond heriol yw'r rhain.  Mae Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn cytuno i'r Compact hwn gan ddisgwyl y caiff ei gyflawni.

Trwy gyflawni'r Compact bydd llywodraeth leol yn cryfhau'r achos dros fuddsoddi mewn cynghorau cyn yr adolygiad nesaf o wariant. Mae'r prif nodweddion sydd yn y tri Contract Gweithredu wedi bod yn destun trafodaethau helaeth rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol. Y disgwyliad yw y bydd llywodraeth leol yn awr yn cyflawni'r ymrwymiadau hyn yn llawn ac y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cefnogi gyda'r dasg hon.


Yn sgil cytundebau o'r fath, mae llywodraeth leol yn derbyn y byddai peidio â chyflawni yn golygu y byddai Llywodraeth Cymru yn troi at ystod o opsiynau deddfwriaethol ac opsiynau eraill er mwyn pennu strwythur a chyfeiriad gwasanaethau at y dyfodol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r contractau gweithredu ym meysydd hollbwysig addysg a gofal cymdeithasol.

## Casgliad

Mae'r Compact hwn yn gytundeb arwyddocaol iawn.  Am y tro cyntaf, mae Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol wedi cytuno ar raglen newid.  Mae hon yn rhan o fframwaith clir o bolisïau a blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer cyflawni a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu.  Mae Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn derbyn y bydd angen eglurder a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyflawni'r rhaglen hon, yn ogystal ag arweiniad cryf yn lleol er mwyn ystyried y manteision ehangach i wasanaethau a dinasyddion.

Mae'n annhebygol y bydd yr heriau ariannol i'r sector cyhoeddus yn lleihau yn sgil yr adolygiad nesaf o wariant.  Mae'n hanfodol rhoi'r newidiadau sylfaenol hyn ar waith yn gyflym, felly, er mwyn diogelu a gwella gwasanaethau cyhoeddus.  Mae'r Compact hwn yn symbol gweladwy o ymrwymiad Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol i weithio mewn partneriaeth i ymdrin â'r heriau rydym yn eu hwynebu ac i gefnogi cymunedau a phobl ledled Cymru.

Ar ran

| | |
|---|---|
|  |  |
| Llywodraeth Cymru<br>Leighton Andrews AC<br>Gweinidog dros Addysg a Sgiliau | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Y Cyng Meryl Gravell MBE<br>YLlywydd, CLlLC |

**Contractau Gweithredu**

Mae tair adran nesaf y Compact yn Gontractau Gweithredu penodol gyda llywodraeth leol.  Maent yn ymdrin ag addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac argymhellion Adroddiad Simpson.

O'r 21 argymhelliad yn Adroddiad Simpson, ymdrinnir ag argymhellion 4 a 5 yn y contract addysg; ymdrinnir ag argymhellion 6 a 7 yn y contract gwasanaethau cymdeithasol; ac ymdrinnir ag argymhellion 8 -19 yng Nghontract Gweithredu Adolygiad Simpson. Ymdrinnir ag argymhellion 1, 2, 3 ac 20 yng nghorff y Compact.

Mae nifer fach o ymrwymiadau wedi'u cynnwys hefyd yn y Contractau sydd wedi codi o ganlyniad i Adolygiad Simpson, ond nid oeddent yn argymhellion penodol.

Er mai cytundeb â llywodraeth leol yw hwn yn bennaf, bydd amgylchiadau'n codi pan fydd yn rhaid gweithio gyda phartneriaid fel y Trydydd Sector, Cymdeithasau Tai, y Gwasanaethau Brys ac eraill er mwyn cyflawni ymrwymiadau.  Rydym o'r farn y dylid cynnwys y Trydydd Sector wrth geisio cyflawni pob ymrwymiad yn y 'contractau gweithredol' lle bo hynny'n briodol.  Mater i'r adran neu'r unigolion cyfrifol yw sicrhau bod y Trydydd Sector yn cael ei gynnwys yn briodol.

Mae rhai camau eisoes wedi'u cwblhau, ond maent wedi'u cynnwys yn y contractau oherwydd eu pwysigrwydd i'r pecyn cyffredinol o ddiwygiadau i wasanaethau cyhoeddus.

## Y Contract Gweithredu Addysg

| Ymrwymiad | Cerrig Milltir | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| Llywodraeth Leol i fodloni Cynllun Gweithredu Addysg 20 pwynt Llywodraeth Cymru. | Fel y nodir yn y Cynllun Gweithredu Addysg | Llywodraeth Leol |
| Llywodraeth Leol i weithio gyda Llywodraeth Cymru i greu model newydd ar gyfer gwella ysgolion yng Nghymru, a'i roi ar waith mewn pedair ardal.[3] | Medi 2012 | Llywodraeth Leol<br>Y Gweinidog Addysg a Sgiliau |
| Llywodraeth Leol i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu ystod ehangach o wasanaethau addysg penodol (i'w cytuno) yn rhanbarthol. | Medi 2014 | Llywodraeth Leol<br>Y Gweinidog Addysg a Sgiliau |
| Llywodraeth Leol i gynyddu'r raddfa ddirprwyo cyllid i ysgolion:<br>• i 80% i gychwyn;<br>• gan weithio tuag at 85% wedi hynny. | <br>Medi 2012<br>Medi 2014 | Llywodraeth Leol |
| Llywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth Leol i roi model cyllid myfyrwyr newydd ar waith yn seiliedig ar wasanaeth Cymru gyfan, a sicrhau dilyniant y gwasanaeth yn ystod y cyfnod pontio. | Medi 2016 | Y Gweinidog Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Leol |
| Llywodraeth Leol ac Uned Safonau Ysgolion Llywodraeth Cymru i roi system bandio ysgolion ar waith. | Medi 2011 | Llywodraeth Leol<br>Y Gweinidog Addysg a Sgiliau |
| Llywodraeth Leol, gyda chymorth Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i roi menter arfer da nod barcud "Dysgu oddi wrth y Goreuon" ar waith. | Mawrth 2012 | Llywodraeth Leol<br>Y Gweinidog Addysg a Sgiliau |
| Llywodraeth Cymru i gefnogi Llywodraeth Leol i ddatblygu ffederasiynau ysgolion a'r gwaith cysylltiedig o symleiddio a | Mawrth 2012 | Y Gweinidog Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Leol |

[3] **Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru**: Caerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Powys;
**Gogledd Cymru**: Ynys Môn, Conwy, Gwynedd, Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych;
**De-ddwyrain Cymru**: Caerffili, Casnewydd, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy;
**Canol De Cymru**: Bro Morgannwg, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr.

| Ymrwymiad | Cerrig Milltir | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| chyflymu'r broses o ad-drefnu ysgolion. | | |

**Y Contract Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol**

| Ymrwymiad | Cerrig Milltir | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol i sefydlu a chynnal trefniadau arwain newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ledled Cymru, er mwyn ysgogi'r rhaglen newid sy'n ofynnol. | Hydref 2011 | Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Llywodraeth Leol |
| Llywodraeth Leol i gymryd rhan lawn yn y trefniadau arwain newydd a darparu arweiniad yn rhanbarthol ac yn lleol ar gyfer rhoi'r rhaglen newid ar waith. | Hydref 2011 | Llywodraeth Leol |
| Llywodraeth Leol i ddarparu un ymateb cydgysylltiedig i lythyr y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, dyddiedig 23 Mawrth 2011, gan sicrhau bod yr ymateb:<br><br>• yn adlewyrchu'n briodol flaenoriaethau 'gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy i Gymru';<br>• yn adlewyrchu'r patrwm rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2011;<br>• yn nodi cynigion ar gyfer cydweithredu ar lefelau strategol a gweithredol i fynd i'r afael â chymhlethdod a dyblygu a sut y bydd Llywodraeth Leol yn defnyddio'i chapasiti yn fwy effeithlon ac effeithiol;<br>• yn nodi cynigion ar gyfer dull mwy strategol o gomisiynu sy'n cynnwys cynigion rhanbarthol a chenedlaethol. | Rhagfyr 2011 | Llywodraeth Leol |
| Llywodraeth Leol i ddatblygu a chytuno ar raglen weithredu, i gychwyn ar 1 Ebrill 2012, ar gyfer y newidiadau sy'n deillio o'r ymatebion i'r Dirprwy Weinidog, a'u cyflwyno gerbron y Fforwm Partneriaeth. | Mawrth 2012 | Llywodraeth Leol |

**Y Contract Gweithredu Gwasanaethau Eraill**

| Ymrwymiad | Cerrig Milltir | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| Llywodraeth Leol, yn unol â pholisi cenedlaethol Llywodraeth Cymru, i **gaffael seilwaith trin gwastraff** cydweithredol**:**<br>• 18 Awdurdod Lleol mewn 7 canolfan gwastraff bwyd<br>• 21 Awdurdod Lleol mewn 6 chanolfan gwastraff gweddilliol | 2012-2014 ar gyfer gwastraff bwyd<br>2016-2018 ar gyfer gwastraff gweddilliol | Llywodraeth Leol |
| Llywodraeth Leol, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, i roi'r rhaglen newid gydweithredol ar waith ar gyfer holl **wasanaethau rheoli gwastraff** awdurdodau lleol**.** | Cam 1 – Ebrill 2012<br>Cam 2 – Ebrill 2013<br>Cam 3 – Ebrill 2014 | Llywodraeth Leol<br>Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy |
| Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru i adolygu'r **rhyngwyneb rhwng Asiantaethau Cefnffyrdd a'r** awdurdodau sy'n rhan o'r **Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol** a'r dull o gydweithio rhwng **gwasanaethau peirianneg priffyrdd** i helpu i gynllunio, rheoli a darparu gwasanaethau priffyrdd strategol.<br>Llywodraeth Leol, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, i nodi a gweithredu enillion cyflym gan Gonsortia Trafnidiaeth Rhanbarthol.<br>Datblygu achos busnes a rhoi newidiadau ar waith. | Mehefin 2012<br>Mawrth 2013<br>Mawrth 2013 – Mawrth 2014 | Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau<br>Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol |
| Llywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Llywodraeth Leol i gwblhau'r achos busnes ar gyfer y **Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.** | Mehefin 2012 | Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ<br>Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau<br>Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus<br>Llywodraeth Leol |

| | | |
|---|---|---|
| Llywodraeth Leol, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, i barhau i weithredu'r **Strategaeth TGCh Gwasanaethau Cyhoeddus**, gan ddechrau gyda fframweithiau caffael cydweithredol ar gyfer **caledwedd TGCh a seilwaith TGCh a rennir.** | Mawrth 2012 | Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ<br>Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau<br>Y Gweinidog Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth<br>Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus<br>Llywodraeth Leol |
| Llywodraeth Leol i gwblhau achosion busnes y cynghorau unigol ar gyfer **cyfnewidcymru**; ac os yn ei fabwysiadu,<br>Llywodraeth Leol i fod wedi ymrwymo erbyn Mehefin 2012. | Chwefror 2012<br><br>Mehefin 2012 | Llywodraeth Leol<br>Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ<br>Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau<br>Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Llywodraeth Leol i fabwysiadu'n llawn y **cwestiynau generig safonol am gymwysterau cyflenwyr** (SQuID). | Mawrth 2012 | Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ<br>Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau<br>Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus<br>Llywodraeth Leol |
| Llywodraeth Leol, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, i ddatblygu cyfres o **Reolau Gweithdrefnau Contract safonol** a'u rhoi ar waith**.** | Mehefin 2012 | Llywodraeth Leol<br>Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ<br>Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau |

| | | |
|---|---|---|
| | | Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Llywodraeth Leol, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, i ddefnyddio **cymalau 'Budd i'r Gymuned'** mewn contractau sy'n werth mwy na £2 filiwn a lle gellir cyflawni budd i'r gymuned. | Mawrth 2012 | Llywodraeth Leol<br>Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ<br>Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau<br>Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Llywodraeth Leol i gydweithio â Llywodraeth Cymru i ddatblygu Canllawiau diwygiedig ar gyfer y **Rhaglen Cefnogi Pobl** a rôl y pwyllgorau rhanbarthol a'r dull o'u gweithredu. | Mawrth 2012 | Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth<br>Llywodraeth Leol |
| Llywodraeth Leol a darparwyr gwasanaethau i sefydlu **Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol Cefnogi Pobl** yn unol â'r canllawiau diwygiedig. | Mehefin 2012 | Llywodraeth Leol<br>Darparwyr gwasanaethau (Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r trydydd sector) |
| Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol i ddatblygu dull cydweithredol o ddarparu **gwasanaethau cynllunio**, gan gynnwys gwasanaethau arbenigol a'r broses ceisiadau cynllunio, wedi'u llywio gan y Panel Cynghori Annibynnol a sefydlwyd gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy. | Medi 2012 | Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy<br>Awdurdodau Parc Lleol a Chenedlaethol |
| Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth Llywodraeth Leol a rhannau eraill o'r sector cyhoeddus, i adolygu'r posibilrwydd o gael **Telerau ac Amodau Contract safonol** ar draws y sector cyhoeddus. | Chwefror 2012 | Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ<br>Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau a Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus<br>Llywodraeth Leol |
| Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol i drefnu i ddarparu **gwasanaethau cynllunio at argyfwng** fesul rhanbarth o fewn 2 | Medi 2013 | Prif Weinidog Cymru<br>Y Gweinidog Llywodraeth Leol a |

| | | |
|---|---|---|
| flynedd, a chyda phartneriaid eraill ar sail dull amlasiantaeth o fewn 4 blynedd lle bo hynny'n ymarferol. | Medi 2015 | Chymunedau<br>Llywodraeth Leol<br>Fforymau Lleol Cymru Gydnerth |
| Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol i adolygu'r posibilrwydd o gydweithredu wrth ddarparu cymorth ar gyfer adeiladau rhestredig ac adeiladau hanesyddol yn y dyfodol. | Medi 2012 | Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth<br>Awdurdodau cynllunio lleol<br>Sector yr amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys y trydydd sector |
| Llywodraeth Leol i adolygu'r opsiynau ar gyfer **gweinyddu a chasglu treth leol** (y Dreth Gyngor a'r Ardreth Annomestig Genedlaethol) yng Nghymru naill ai'n rhanbarthol neu'n genedlaethol. | Mehefin 2012 | Llywodraeth Leol<br>Cymdeithas Trysoryddion Cymru |
| Llywodraeth Leol i adolygu'r drefn ar gyfer **cronfeydd pensiwn awdurdodau lleol** yng Nghymru, gan ystyried nifer y cronfeydd a'u strwythur. | Hydref 2012 | Llywodraeth Leol<br>Cronfeydd Pensiwn Cymru |
| Llywodraeth Leol i adolygu'r posibilrwydd o gydweithredu yn y dyfodol wrth ddarparu ystod o **wasanaethau corfforaethol** (i'w cytuno) fel y gyflogres, gwasanaethau cyfreithiol ac adnoddau dynol. | Mawrth 2013 | Llywodraeth Leol |
| Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol i adolygu trefniadau cydweithredol presennol y **gwasanaethau llyfrgell**; a chytuno ar gynllun gweithredu o drefniadau pellach a'i roi ar waith ar y cyd. | Medi 2012<br><br>Tachwedd 2012 | Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth<br>Llywodraeth Leol |
| Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol i adolygu'r posibilrwydd o gydweithredu wrth ddarparu **gwasanaethau archifau** yn y dyfodol**.** | Medi 2012 | Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth<br>Llywodraeth Leol |
| Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol i adolygu a blaenoriaethu'r meysydd allweddol ar gyfer gwaith rhanbarthol mewn perthynas â **gwasanaethau tai** a llunio cynllun gweithredu i'w roi ar waith yn amodol ar werthusiad. | Mawrth 2012 | Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth<br>Llywodraeth Leol |
| Llywodraeth Leol, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, i adolygu'r posibilrwydd o gydweithredu i ddarparu **gwasanaethau diwylliant a** | Mawrth 2012 | Llywodraeth Leol<br>Y Gweinidog Tai, Adfywio a |

| | | |
|---|---|---|
| **hamdden** yn y dyfodol**.** | | Threftadaeth, |
| Llywodraeth Cymru i gadarnhau'r polisi a fwriedir ar gyfer gwasanaethau **Safonau Masnach** yn y dyfodol.<br>Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru i adolygu'r posibilrwydd o gydweithredu i ddarparu Safonau Masnach ar ôl cadarnhau'r polisi. | Mawrth 2012<br><br>Medi 2012 | Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau<br><br>Llywodraeth Leol |
| Llywodraeth Leol, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, i adolygu'r posibilrwydd o gydweithredu ar **wasanaethau iechyd yr amgylchedd**. | Rhagfyr 2012 | Llywodraeth Leol<br>Prif Weinidog Cymru<br>Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau |
| Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth Lywodraeth Leol, i ddatblygu achos busnes llawn ac, os yw hynny'n briodol, gynllun gweithredu dilynol sy'n nodi'r cynigion y cytunwyd arnynt ynghylch cael mwy o gydweithredu o ran darparu a chaffael **gwasanaethau cyfieithu Cymraeg**. | Rhagfyr 2012 | Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau<br>Y Gweinidog Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Leol |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i lunio adroddiad ar gyfer y Cyngor Partneriaeth sy'n egluro ei amrywiol swyddogaethau ac yn nodi'n glir y gwahaniaeth rhwng ei rôl o ran darparu gwasanaethau a'i rôl o ran polisïau. | Mawrth 2012 | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |